

## Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2020/21 – 2022/23

<b>Sefydliad:</b>	Prifysgol De Cymru
<b>Arweinydd Strategaeth CAYC:</b>	Yr Athro Paul Harrison
<b>E-bost:</b>	<a href="mailto:Paul.harrison@southwales.ac.uk">Paul.harrison@southwales.ac.uk</a>
<b>Rhif ffôn:</b>	01443 654803

**Adran A: Trosolwg****1. Uchelgeisiau strategol**

*Rhowch drosolwg o ddull tair blynedd [a thu hwnt os oes cynlluniau tymor hwy ar gael] eich sefydliad o safbwynt gweithgarwch ymchwil ac arloesi a gaiff ei gefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC). Efallai y byddwch am amlygu'r meysydd bras yr ydych yn eu targedu, a disgrifio sut bydd cyllid CAYC yn alinio â chenhadaeth eich sefydliad a'ch strategaethau mewnol. [Uchafswm o 300 o eiriau]*

Mae Prifysgol De Cymru (PDC) yn Brifysgol flaenllaw sy'n cael effaith economaidd sylweddol ac mae ganddi hanes cryf o ymchwil cymhwysol sy'n llywio polisi ac ymarfer. Ochr yn ochr â'n strategaeth ymchwil a'n cynllun ymgysylltu, mae ein strategaeth arloesi yn adeiladu ar ein llwyddiant sylweddol o ran gyrru twf a ffyniant economaidd, wedi'i lywio gan y Dirprwy Is-Ganghellor Arloesedd fel arweinydd Gweithredol. Mae ein dull yn cyd-fynd â gweledigaeth ein Prifysgol yn ein strategaeth newydd PDC2030, "Newid Bywydau a'n Byd er Gwell". Wrth weithio ar y cyd â diwydiant, bydd ein hymchwil a'n harloesedd yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau byd-eang mwyaf, o ynni i iechyd i ddiogelwch, ac yn darparu atebion i broblemau'r byd go iawn. Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol orau ar gyfer ein cymunedau, ein partneriaid, a myfyrwyr sy'n arweinwyr, penderfynwyr a dylanwadwyr y dyfodol – mewn diwydiant, ymchwil a chymdeithas.

**Thema Allweddol 1: Effaith ein hymchwil a'n harloesedd**

Rydym yn brifysgol gymhwysol; mae'n rhan o'n treftadaeth a'n diwylliant i ymgysylltu â'n myfyrwyr a'n staff i fynd i'r afael â heriau a nodir gan ddiwydiant i'w helpu i gael effaith gymdeithasol ac economaidd.

**Thema Allweddol 2: Cyfnewid gwybodaeth a sgiliau er budd myfyrwyr a phartneriaid strategol**

Byddwn yn darparu ecosystem sy'n cefnogi menter ac arloesedd, gan fuddsoddi mewn perthnasoedd â phartneriaid strategol a chefnogi mentrau newydd, i ddod â buddion hirdymor i fyfyrwyr, cymunedau, busnes a llywodraeth.

**Thema Allweddol 3: Ein cyfraniad i lesiant economaidd a chymdeithasol**

Byddwn yn ymestyn ein cyrhaeddiad y tu hwnt i Gymru i sicrhau bod polisi'n deillio o dystiolaeth sy'n seiliedig ar ymchwil, a byddwn yn cefnogi busnesau i arloesi wrth ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd sy'n helpu i dyfu'r economi wybodaeth.

#### **Thema Allweddol 4: Ein sefydliad cysylltiedig a chyfrifol**

Byddwn yn gweithredu fel canolbwynt a chatalydd ar gyfer ffyniant economaidd a chymdeithasol trwy gysylltu busnesau a chymunedau, a byddwn yn arddangos arferion gorau yn ein hymrwymiad i gynaliadwyedd (amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol).

## **2. Grant Capasiti**

*Esboniwch yn fras sut mae eich sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti sydd wedi'i gynnwys o fewn CAYC, a'r Gronfa Datblygu Capasiti Arloesi untro (gweler paragraff 14 yng nghylchlythyr W20/09HE am arweiniad pellach ar y Grant Capasiti). Sut caiff hwn ei ddefnyddio i gefnogi a gwella capasiti a darparu cymhelliant a gwella perfformiad o safbwynt cyfnewid gwybodaeth? [Uchafswm o 300 o eiriau]*

Mae gallu a phrofiad ein timau Cyfnewid Gwybodaeth yn allweddol i gyflawni ein Strategaeth Arloesi. Maent yn ganolog i gefnogi ein staff academiaidd i ymgysylltu â gweithgareddau Arloesi, ac wrth adeiladu perthnasoedd cydweithredol â phartneriaid i wneud y mwyaf o'r effaith economaidd ac ymgysylltu dinesig.

Byddwn yn defnyddio'r Grant Capasiti i ategu meysydd ffocws allweddol. Bydd hyn yn ein galluogi i sbarduno masnacheiddio ein hymchwil i helpu i ddatblygu effaith economaidd yn y rhanbarth, cefnogi twf busnes a hwyluso ein huchelgeisiau cenhadaeth ddinesig. Byddwn yn cynnal y ffrwd ariannu ar gyfer aelodau allweddol o staff sy'n effeithio ar ymgysylltu, Cenhadaeth Ddinesig, Menter/Cyflogadwyedd a gweithgarwch entrepreneuriaeth graddedigion.

Cynllunnir swyddi a gyllidir i gynnwys: dau Reolwr Ymgysylltu i yrru gweithgarwch partneriaeth ac ymgysylltu â phartneriaid/cyflogwyr mewn diwydiant; rôl Swyddog Cenhadaeth Ddinesig i barhau i yrru agenda ymgysylltu dinesig PDC; Swyddog Menter i sicrhau parhad y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid; Rheolwr deorydd Stiwdio i yrru menter gan raddedigion a chymorth busnes, â ffocws ar ddatblygiadau newydd.

Byddwn yn ymestyn rôl Rheolwr presennol y Rhaglen Cyd-ddealltwriaeth Strategol (<https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/ymchwil/gweithio-gyda-ni/rhaglen-cyd-ddealltwriaeth-strategol/>) i ehangu ar draws cwrpas gweithgarwch y Gyfnewidfa, gan sicrhau presenoldeb ar draws campysau, cydweithredu ag addysg bellach (AB), mwy o ymgysylltiad â busnes, a goruchwyllo cyfres o raglenni Cymorth Busnes y Gyfnewidfa.

Bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer masnacheiddio a marchnata cyfleusterau technegol PDC ac ar gyfer arwain ar raglen fasnacheiddio newydd Cronfa Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi PDC. Bydd angen adnoddau ar gyfer ein system newydd arfaethedig i reoli cysylltiadau cwsmeriaid, i sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus, a byddwn yn cryfhau ein hadnodd cyn-fyfyrrwyr i sicrhau cysylltiad rheolaidd â'n cymuned entrepreneuriaeth i raddedigion. Cefnogir ein portffolio DPP gan adnoddau ychwanegol i ddatblygu perthnasoedd cleientiaid cynaliadwy a sbarduno cynhyrchu incwm, a bydd nifer a chymhlethdod cynyddol ein Contractau Arloesi yn cael eu cefnogi gan weithiwr proffesiynol Contractau arbenigol.

## Adran B: Cynnwys penodol

### 3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm

*Nod CAYC yw darparu cymhelliant a gwobrwyo perfformiad, yn arbennig yn nhermau caffael incwm allanol. Amlinellwch gyfeiriad y daith, dros y tair blynedd nesaf, a fydd yn cefnogi'r gwaith i gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yn 3.1. Rhowch fanylion am feysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf. Amlinellwch ble y caiff CAYC ei defnyddio i ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, neu sut y bydd yn cefnogi datblygiadau newydd. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]*

Byddwn yn canolbwyntio ar yrwyr incwm allweddol trwy ddatblygu Cronfa Gyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, gan gefnogi prosiectau mewnol sy'n dangos y potensial ar gyfer cael effaith sylweddol a chynhyrchu incwm allanol trwy bartneriaethau â busnesau lleol, diwydiant, a sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector. Byddwn yn blaenoriaethu cydweithredu o fewn Cymru ac yn mynnu cael effaith o fewn Cymru. Bydd allbynnau'n cael eu monitro'n fanwl i sicrhau effaith ariannol yn y meysydd incwm a adroddir gan Ryngweithio Addysg Uwch a Busnes a'r Gymuned, h.y. ymgynghori, ymchwil cydweithredol, ymchwil contract, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) masnachol, a mynediad i gyfleusterau ac offer. Bydd bodloni anghenion diwydiant ac annog twf partneriaethau a thwf cydweithredol yn allweddol, gan alinio â strategaethau nodedig (Bargeinion Dinas a Thwf, a Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ac ati). I ddechrau, bydd y gronfa'n canolbwyntio ar brosiectau **sy'n mynd i'r afael ag effeithiau iechyd, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y brigiad COVID-19 a'u lliniaru.**

Bydd y gronfa'n cefnogi staff i ymgysylltu â busnesau a sefydliadau allanol eraill gan ddisgwyl enillion megis cynhyrchu incwm neu gynnydd o ran enw da. Rhaid i brosiectau gefnogi Strategaeth y Brifysgol – PDC 2030. Bydd y cynllun yn anelu at gefnogi cynigion sydd wedi'u diffinio'n dda gydag amcanion mesuradwy a nodir yn glir ac sy'n sicrhau canlyniadau diriaethol, i gefnogi:

- Ymgynghori Masnachol – prosiectau lle mae sefydliad allanol yn llogi gwasanaethau aelod o'r staff academiaidd er mwyn defnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth i helpu'r cleient i ddatrys problemau technegol neu broblemau eraill. Fel arfer, byddai'r cleient yn disgwyl bod yn berchen ar ganlyniadau'r gwaith ac yn darparu incwm masnachol.

- Ymchwil Cydweithredol – yn cynnwys mewnbwn a chyfraniadau gan y partner(iaid) allanol a'r Brifysgol. Mae'n bosibl y bydd partneriaid mewn ymchwil cydweithredol yn dod ag agweddau gwahanol i'r gwaith e.e. deunyddiau, gwybodaeth dechnegol, eiddo deallusol, neu offer neu dechnegau dadansoddol. Disgwylir y bydd prosiectau'n arwain at gynigion am gyllid cydweithredol e.e. cais dilynol i Innovate UK, a fydd yn dod ageffaith i'r rhanbarth.
- Ymchwil Contract – prosiectau a gychwynnir gan noddwr allanol gydag amcanion a osodir gan y noddwr. Caiff gweithgarwch ymchwil ei leoli yn y Brifysgol, gan ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol megis offer, gweithdai, labordai, staff cymorth technegol a gweinyddol, ac un neu fwy o ymchwilwyr. Disgwylir i ganlyniadau ymchwil contract fod yn uniongyrchol ddefnyddiol i'r noddwr, gan eu galluogi i ddod â chynhyrchion neu wasanaethau newydd i'r farchnad a darparu incwm masnachol i ni.
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) – datblygu a/neu ddarparu DPP i sefydliadau allanol at ddibenion uwchsgilio/datblygu'r gweithlu, gan gynnwys cyrsiau byr, rhaglenni pwrpasol sy'n canolbwyntio ar y diwydiant, cymwysterau proffesiynol, a dosbarthiadau meistr, sy'n galluogi cwmnïau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uwch neu wasanaethau mwy cystadleuol i'r economi ranbarthol
- Mynediad i Gyfleusterau a/neu Offer PDC – mynediad i/llogi Cyfleusterau a/neu Offer PDC gan sefydliadau allanol, gan eu galluogi i dyfu eu busnes.

Bydd y brifysgol ond yn cyllido prosiectau sydd ag elw uniongyrchol ar fuddsoddiad ac sy'n alinio â strategaeth PDC 2030 ac sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd prosiectau arloesol yn cael eu cymeradwyo trwy broses dreigl fewnol ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo ceisiadau. Dyrennir cynghorydd o'r tîm cyfnewid gwybodaeth i bob prosiect, i sicrhau bod effaith yn cael ei gwireddu a'i chynyddu i'r eithaf.

I ategu'r buddsoddiad ehangach hwn mewn Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, byddwn yn darparu cefnogaeth benodol mewn nifer o feysydd datblygu diffiniedig:

Byddwn yn annog masnacheiddio eiddo deallusol ar gam cynnar trwy gronfa fach dargedig ar gyfer eiddo deallusol, gan gefnogi'r flwyddyn gyntaf o ddiogelu eiddo deallusol a datblygu cynlluniau masnacheiddio. Bydd yn rhagofyniad ar gyfer unrhyw fuddsoddiad y bydd anghenion ariannol yn y dyfodol yn cael eu hysgogi o ffynonellau allanol megis Banc Datblygu Cymru, cyfalafwyr menter neu endidau masnachol lle bo hynny'n briodol. Y canlyniadau disgwyliedig fydd cytundebau trwyddedu â sefydliadau eraill i fanteisio ar yr eiddo deallusol mewn cynhyrchion neu wasanaethau newydd a/neu ddeilliannau uniongyrchol o'r brifysgol.

Byddwn yn neilltuo adnoddau ar gyfer datblygu cynnig clir o ran masnacheiddio ein cyfleusterau technegol. Bydd hyn yn cynnwys archwiliad manwl o'r holl Gyfleusterau ac Offer y gellir eu darparu i'r gymuned allanol, gan gynnwys gwybodaeth glir am argaeledd a chynllun cyfathrebu ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau i fusnesau. Byddwn yn cynnal 'diwrnodau agored' ar gyfer Busnesau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'n hadnoddau, ac annog rhannu arferion gorau. Bydd hyn yn effeithio ar yr incwm a gofnodir yn ein henillion ar gyfer Offer a Chyfleusterau sy'n deillio o Ryngweithio Addysg Uwch a Busnes a'r Gymuned, a bydd yn cynyddu ein cydweithredu a'n cyfnewid gwybodaeth â

diwydiant. Yn unol â hyn, byddwn yn annog cydweithredu â'n partneriaid AB mewn perthynas â mynediad diwydiant i offer a chyfleusterau, a bydd ein rhaglen weithdai AU/AB yn arddangos ein hadnoddau a'n harbenigedd ar y cyd (fel y manylir yn adran 4.1).

Mewn ymateb i'r ffordd newydd o weithio o ganlyniad i Gyfyngiadau Symud/Covid19, yn ystod 2020/21 byddwn yn buddsoddi yn natblygiad ein darpariaeth DPP masnachol ar-lein. Bydd ein staff yn cael hyfforddiant helaeth ar ystod o blatfformau ar-lein i sicrhau y bydd ein darpariaeth yn gweddu i anghenion amrywiaeth eang o gleientiaid allanol, o ran cyrsiau pwrpasol caeedig ac agored. Yn ogystal â'r portffolio eang a gynigir gennym eisoes, gan gynnwys rheoli prosiectau, rheoli newid ac arweinyddiaeth a datblygu, bydd y dysgu rhithwir newydd hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion sefydliadau o ganlyniad i'r pandemig, a fydd yn cynnwys newid sefydliadol a meddwl yn feirniadol. Bydd gan ddysgwyr ystod o gyfleoedd i ddatblygu a phrofi eu sgiliau gan ddefnyddio ein platfformau dysgu rhithwir.

### **3.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm:**

Cynnydd o 10% o un flwyddyn i'r llall mewn cynhyrchu incwm ar draws ffrydiau incwm allweddol (Ymchwil Cydweithredol/Contract, Ymgynghori, Offer a Chyfleusterau, DPP) a hwylusir gan:

- Ddyrannu strategol y Gronfa Gyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi gwerth £550K (20/21).
- Y gronfa fasnacheiddio eiddo deallusol.
- Masnacheiddio cyfleusterau technegol: 5 diwrnod agored ar gyfer diwydiant; 5 arddangosfa bwrpasol ar gyfer diwydiant.
- Gweithgarwch cymorth busnes Cyfnewidfa PDC: 75 cyfnewidfa arloesi a gyllidir ar gyfer Busnesau; 10 sesiwn flasu DPP, 40 gweithdy AU/AB.

Ffigwr incwm llinell sylfaen 18/19: £12.441M

Ffigwr incwm llinell sylfaen 19/20: £12.135M

Byddwn yn cymryd rhan yn Rhwydwaith Arloesi Cymru ac yn cydweithio ag ef i gefnogi eu nod o incwm ymchwil ac arloesi ychwanegol gwerth £30M i sector AU Cymru yn ystod y rhaglen tair blynedd gychwynol. Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein cyfraniad, gan gynnwys nifer y ceisiadau ac incwm.

### **3.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag [Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru](#) gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

- X Rhagoriaeth
- X Lle
- X Arloesi
- X Cydweithredu

**3.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?**

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae ein strategaeth ymchwil yn nodi ymrwymiad y brifysgol i ehangu'r sylfaen ymchwil a gwneud y mwyaf o **ragoriaeth** â chefnogaeth a buddsoddiad targedig. Trwy ein *Cronfa Gyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi*, byddwn yn harneisio'r rhagoriaeth hon i gynhyrchu incwm i'r brifysgol, y rhanbarth a'n partneriaid. Bydd ein hymrwymiad i greu gwybodaeth, ei throsglwyddo a'i chymhwyso, yn ein helpu i recriwtio, datblygu a chadw'r staff gorau i yrru ein blaenoriaethau ymchwil ac arloesi ac ymgymryd â heriau a nodir gan ddiwydiant sy'n cael effaith gymdeithasol ac economaidd.

Rydym yn deall pwysigrwydd ymchwil a chyfnewid gwybodaeth sy'n **seiliedig ar le**, gan effeithio ar ein myfyrwyr, busnesau (mawr a bach), elusennau, cymunedau a llywodraethau. Rydym yn gweld ymchwil ac arloesi fel rhan annatod o'n cenhadaeth i helpu ein rhanbarth i chwarae rôl gynyddol bwysig yn yr economi fyd-eang. Mae ein harbenigedd a'n cyfleusterau technegol yn allweddol i **arloesi** rhanbarthol, ac rydym yn canolbwyntio ar gymorth busnes a datblygu sgiliau sy'n annog datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd i dyfu ein heconomi wybodaeth.

Rydym yn parhau i ymrwymo i ethos o ymholi **cydweithredol**, gan ddod ag effeithiau ein dealltwriaeth a'n harloesi sy'n deillio o ymchwil i fywydau'r cymunedau a'r busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a wasanaethwn. Mae'r cysylltiadau diwydiannol sy'n llunio ein diwylliant ymchwil yn ei wneud yn wirioneddol ryngwladol, amlieithog ac allblyg. Mae ein diben cyhoeddus yn golygu ein bod wedi ymrwymo i feithrin piblinell o dalent ac i greu amgylchedd sy'n galluogi ein holl fyfyrwyr a staff i ffynnu a gwneud y mwyaf o'r effaith ganlyniadol areraill ac i eraill.

**4. Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau**

*Amlinellwch y cymorth rydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd, sgil-fusnesau, a chyflawni targedau cynlluniau fel Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid Llywodraeth Cymru. Rhowch wybodaeth am ble y bydd CAYC yn ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, a ble y mae'n eich galluogi i fuddsoddi mewn twf pellach. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE.*

*Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant gymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]*

Cyfnewidfa PDC yw'r canolbwynt ar gyfer cydweithredu, cymorth busnes a chreu cysylltiadau â diwydiant ym Mhrifysgol De Cymru

(<https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/Busnes/usw-exchange-events-membership/>). Mae'r gyfnewidfa'n canolbwyntio ar ffyniant economaidd ac ymgysylltu â'r gymuned trwy:

- Ddarparu mynediad i arbenigedd a chyfleusterau ledled y Brifysgol
- Hwyluso cyfleoedd ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth, Ymgysylltu â Diwydiant, Datblygiad Proffesiynol a Phartneriaethau Strategol.
- Darparu manau pwrpasol ar gyfer ymgysylltu â busnes o ran gweithio o bell, cydleoli, cydweithredu a rhyngweithio.
- Darparu amserlen lawn o ddigwyddiadau cymorth busnes trwy Rwydwaith y Gyfnewidfa ar gyfer microfusnesau a busnesau bach a chanolig ond hefyd ar gyfer partneriaid mwy o faint.

Byddwn yn ehangu ein hadnodd Cyfnewidfa i fodloni anghenion diwydiant lleol gan ganolbwyntio ar adfywio economaidd, ac i ddatblygu partneriaethau strategol newydd sy'n canolbwyntio ar sgiliau diwydiant a chydweithredu. Byddwn yn cyllido Swyddog Cyfnewidfa i weithio ochr yn ochr â'n Rheolwr Cyfnewidfa i:

- Gefnogi datblygiad ystod ehangach o ddigwyddiadau a chydweithrediadau cymorth busnes ar draws darpariaeth estynedig ac ar-lein y Gyfnewidfa.
- Gyrru cefnogaeth gychwynnol ar gyfer busnes trwy weithgarwch Partneriaeth ac Ymgysylltu a gyllidir, i gwmpasu cyfleoedd Cyfnewid Gwybodaeth.
- Cyfeirio partneriaid mewn diwydiant at gymorth busnes a chyfnewid gwybodaeth ehangach trwy gydweithredu â rhwydweithiau AU/AB, asiantaethau Cymorth Busnes, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.
- Annog cydweithredu a pharhau i ddatblygu ein cysylltiadau AU/AB trwy raglen o weithdai a gyllidir, mewn cydweithrediad â'n Colegau Partner (gan barhau â'n rhaglen lwyddiannus Partneriaeth ar gyfer Arloesi mewn Addysg).
- Integreiddio sesiynau blasu DPP ar-lein yn ein rhaglenni digwyddiadau'r Gyfnewidfa, i ddarparu uwchsgilio a chefnogaeth i ddiwydiant.

O fewn y Gyfnewidfa, byddwn yn parhau i gefnogi ein hadnodd Rheolwr Ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar ddatblygu a ffurfioli perthnasoedd â sefydliadau allanol, a chefnogi gweithgarwch hirdymor cynaliadwy sy'n cynyddu ein heffaith ddiwylliannol, gymdeithasol ac economaidd. Bydd hyn yn cael ei yrru gan strategaeth 2030 PDC, gan sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg trwy weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol. Bydd y Rheolwyr Ymgysylltu yn sicrhau bod ein cymuned fusnes yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ymgysylltu: o gyfleusterau a lleoliadau, i fewnbwn i'r cwricwlwm a chydweithio ar ymchwil. Bydd perthnasoedd presennol yn cael eu mapio i sicrhau dull cydgysylltiedig o ymdrin â phartneriaethau ledled y sefydliad ac i nodi cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu ac ymgysylltu â diwydiant. Bydd y Rheolwyr Ymgysylltu yn eiriolwyr ar ran Cyfnewid Gwybodaeth, ac yn mentora cydweithwyr academaidd i wneud y mwyaf o'u gweithgareddau ymgysylltu â diwydiant.

Bydd Cyfnewidfa PDC yn arwain ar Raglen Bartneriaeth ac Ymgysylltu er mwyn cyfoethogi a thyfu cydweithrediad cynaliadwy â busnes gyda PDC a hwyluso mynediad i arbenigedd. Bydd ystod o gefnogaeth i ddatblygu partneriaethau ystyrlon, ysgogi cyfleoedd masnachol yn y dyfodol a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu. Anogir busnesau i fod yn bartner i PDC mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Galluogi Ffyniant Economaidd a Thwf Busnes
- Sefydlu Partneriaethau Diwydiannol-Academaidd
- Gwella Sgiliau'r Gweithlu
- Galluogi Ffyniant Dinesig ac Ymgysylltiad Dinesig.

Bydd pob rhyngweithio maes yn darparu cymorth diagnostig, cwmpasu neu ddichonoldeb academaidd tymor byr gan PDC. Cefnogir pob ymgysylltiad gan dîm Ymgysylltu Allanol Cyfnewidfa PDC, a fydd yn nodi'r camau nesaf o ran cydweithredu a chymorth arloesi yn y dyfodol (e.e. Llywodraeth Cymru, Arloesi ac ati). Bydd sesiynau blasu o'n darpariaeth DPP masnachol ar gael am ddim i Aelodau Cyfnewidfa/partneriaid y diwydiant, gan ganolbwyntio ar ystwythder, arweinyddiaeth a rheoli newid.

Er mwyn sicrhau gweithrediad cadarn ein strategaeth ymgysylltu allanol a rheoli cleientiaid ledled y sefydliad, byddwn yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer rheoli cysylltiadau cwsmeriaid a fydd yn dwyn ynghyd yr holl weithgarwch cyfnewid gwybodaeth a phartneriaeth â diwydiant i'w fapio, ei rannu a'i reoli. Bydd hyn yn cael ei oruchwyllo gan ein Rheolwyr Ymgysylltu Allanol, a bydd yn cofnodi perthnasoedd sy'n cyfrannu i bob agwedd ar ein Strategaeth Arloesi, o bartneriaid ymchwil cydweithredol i aelodau canolfan fusnes y Gyfnewidfa, gan ein galluogi i wneud y mwyaf o'n cysylltiadau presennol â diwydiant, a datblygu a thyfu partneriaethau newydd. Bydd staff PDC sy'n canolbwyntio ar gyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â'r diwydiant yn gallu manteisio ar yr adnodd.

Mae ein cysylltiadau cryf ag AB yn elfen allweddol o'n strategaeth sefydliadol 2030, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd dull cydgysylltiedig o arloesi ac ymgysylltu â diwydiant yn y rhanbarth. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant sylweddolein rhaglen gydweithredol AU/AB 'Partneriaeth ar gyfer Arloesi mewn Addysg' (<https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/ymchwil/gweithio-gyda-ni/rhaglen-cyd-ddealltwriaeth-strategol/>), gyda rhaglen gynhwysfawr o weithdai sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant. Bydd y gweithdai yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar y cysylltiadau cydweithredol cryf rhwng PDC a'r pum sefydliad AB rhanbarthol, gan ehangu ar y cysylltiadau presennol â Diwydiant a chefnogi buddsoddiad mewnol yn y rhanbarth. Bydd y gweithdai yn:

- rhannu ymchwil gymhwysol lefel uchel a'i gymhwyso yn y rhanbarth
- cefnogi datblygiad ymgysylltu â diwydiant ac uwchsgilio staff
- hyrwyddo datblygiad i feysydd dysgu newydd mewn technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, a mynediad i offer/adnoddau arbenigol ac arbenigedd.



- annog ymgysylltiad cymunedol (cenhadaeth ddinesig) sy'n galluogi pobl leol i gael mynediad i swyddi/uwchsgilio

Bydd ein blaenoriaeth ar gyfer gweithdai yn gysylltiedig â meysydd arbenigrwydd yn ein strategaeth 2030, gan ein galluogi i barhau i yrru themâu allweddol o'r rhaglen AU/AB flaenrol (megis maes Creadigol a maes Lled-ddargludyddion Cyfansawdd) ond hefyd i ddatblygu ein rhwydweithiau ymhellach. Bydd pob gweithdy'n cael ei ddatblygu'n astudiaeth achos i lywio addysgu, ymchwil ac ymgysylltu ymhellach. Lle byddai gwerth mewn gwneud hynny, byddwn yn caniatáu i sefydliadau AB o'r tu allan i ranbarth De Ddwyrain Cymru gydweithio â ni a'n colegau partner.

Mae PDC wedi ymrwymo i fod yn Brifysgol fentrus sy'n cynyddu nifer y graddedigion sy'n cychwyn eu busnes eu hunain; yn helpu nifer fwy o fentrau graddedigion i oroesi tair blynedd; yn datblygu mwy o gwmnïau deillio gan y brifysgol; yn creu cymuned fywiog o gyn-fyfyrwyr entrepreneuriaid i gefnogi mentrau graddedigion; ac yn sefydlu sgiliau menter ac entrepreneuriaeth myfyrwyr i gefnogi eu gyrfaedd yn y dyfodol. Bydd strategaeth fenter ac entrepreneuriaeth ddiwygiedig yn gyrru'r ymrwymiad hwn. Bydd cymorth i fyfyrwyr sy'n dangos diddordeb mewn cychwyn eu busnesau eu hunain yn cael ei dargedu a'i flaenoriaethu. Bydd Deorydd Stiwdio (<https://startup.southwales.ac.uk/sefydlu/stiwdio/>) yn derbyn cyllid ychwanegol am flwyddyn i alluogi ehangu'r cysyniad i'n Campws Dinas Casnewydd a chreu gwasanaeth cymorth busnes rhithwir ar-lein ar gyfer busnesau graddedigion oddi ar y campws (gan gynnwys ysgol haf rithwir ar gyfer cychwyn busnes a gwrsyll busnes ar-lein).

Bydd adnodd menter yn cael ei gyllido i gynnal ac adeiladu capasiti entrepreneuriaid trwy ddarparu gweithgareddau Ymgysylltu, Grymuso ac Arfogi i fyfyrwyr a graddedigion fel esblygiad o raglen Entrepreneuriaeth leuenctid Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn canolbwyntio ar gynorthwyo myfyrwyr a graddedigion ar daith sy'n cynnwys Ymgysylltu: codi proffil entrepreneuriaeth fel gyrfa; Grymuso: datblygu sgiliau a gwybodaeth entrepreneuriaid; ac Arfogi: dilysua phrofi syniadau busnes, cefnogaeth un ac un a chymorth cychwyn busnes. Er mwyn sicrhau'r adlewyrchiad llawnaf posibl o rwydwaith entrepreneuriaid graddedig PDC, bydd adnodd cyn-fyfyrwyr yn cael ei gyllido i gofnodi ac arddangos llwyddiant menter graddedigion. Gan helpu i fonitro a chysylltu ag entrepreneuriaid graddedig, bydd hyn yn ategu rhaglenni sydd wedi'u hanelu at fentrau eginol myfyrwyr/graddedigion ac yn rhoi cyfle i olrhain entrepreneuriaid yn gywir wrth iddynt symud ymlaen o'r cam cychwyn.

#### 4.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

### Ymgysylltu Allanol

Bydd llwyddiant ein gweithgarwch Ymgysylltu Allanol eang yn cael ei yrru gan bum thema, y mae llawer ohonynt yn effeithio ar Fesurau Cenedlaethol/Rhyngweithio Addysg Uwch a Busnes a'r Gymuned a'r twf a amlinellir yn ein dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â chynhyrchu incwm/masnacheiddio:

- **Gwerth Ymchwil** – uniongyrchol neu anuniongyrchol, a gynhyrchir trwy weithgareddau ymchwil megis prosiectau cydweithredol.
- **Gwerth Masnachol** – yn ymwneud ag incwm a gynhyrchir trwy weithgarwch masnachol neu gydweithredu.
- **Gwerth Addysgol** – cyfrannu at ddatblygiad myfyrwyr a/neu ddatblygiad proffesiynol, fel arfer yn seiliedig ar gwricwlwm neu hyfforddiant.
- **Gwerth Trosoledd** – yn deillio o berthnasoedd cydweithredol.
- **Gwerth Cydgysylltiad** – a geir o ganlyniad i ryngweithio â pharti arall; myfyriwr, busnes, ac ati.

Bydd ein gweithgarwch ymgysylltu yn canolbwyntio ar weithgarwch Twf Busnes Newydd, Cymorth Sgiliau, Cydweithio AU/AB a Datblygu Partneriaethau, gyda thargedau ar gyfer:

- 100 aelod newydd ar gyfer y Gyfnewidfa bob blwyddyn
- 40 gweithdy AU/AB sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant bob blwyddyn
- 5 partneriaeth strategol newydd bob blwyddyn
- 75 cyfnewidfa arloesi â Busnesau trwy'r Rhaglen Bartneriaeth ac Ymgysylltu
- Sesiynau blasu DPP ar gyfer Rhwydwaith Aelodaeth y Gyfnewidf
- Gweithredu system newydd ar gyfer rheoli cysylltiadau cwsmeriaid

### Busnesau Newydd ac Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Bydd ein gweithgarwch Menter ac Entrepreneuriaeth yn cael ei fesur ar draws pum thema:

- **Ymgysylltu** – Codi ymwybyddiaeth o gymorth Menter ac Entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr a graddedigion PDC: 3000 bob blwyddyn
- **Grymuso** – Myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth a sgiliau menter: 300 bob blwyddyn
- **Arfogi** – Myfyrwyr yn derbyn cymorth i gychwyn busnesau trwy gymorth pwrpasol, masnachu ar brawf a gwerysilloedd cychwyn busnes: 100 bob blwyddyn
- **Cychwyn Busnes** – Myfyrwyr a graddedigion yn cychwyn busnes: 40 bob blwyddyn
- **Cymuned Cychwyn Busnes** – Rhwydwaith entrepreneuriaeth Cyn-fyfyrwyr PDC: 1000 (i gynnwys 10 astudiaeth achos)

**4.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag [Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru](#) gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

- Rhagoriaeth
- Lle
- Arloesi
- Cydweithredu

#### 4.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer twf busnes newydd a sgiliau yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae gweithgarwch y Gyfnewidfa yn **seiliedig iawn ar le**, wedi'i yrru gan ein ffocws ar gymorth busnes a phartneriaethau ac yn gysylltiedig â'n hymgysylltiad â chymunedau lleol. Mae ein Cyfnewidfeydd ffisegol yng Nghasnewydd a Threfforest yn adnodd ar gyfer cydweithredu â diwydiant, cyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio, gan ddarparu man ar gyfer cydweithredu sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned a'r rhanbarth. Mae ein Deorydd Busnes, Stiwdio, yng Nghaerdydd yn cefnogi'r Diwydiant Creadigol a chwmnïau newydd cysylltiedig, gyda chynlluniau i ehangu i Gasnewydd i ategu ein cyfleuster Cyfnewidfa newydd.

Mae **cydweithredu** wrth wraidd yr holl weithgarwch Cyfnewid a Menter – o'n manau cydweithredu ffisegol i'n gweithgarwch partneriaeth. Darperir rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â phartneriaid mewn diwydiant a sefydliadau cymorth busnes. Mae cydweithredu AU/AB yn ffocws allweddol a bydd yn parhau i gael ei yrru gan gyfres o weithdai cydweithredol ar draws AU, AB a diwydiant. Mae cyfnewid gwybodaeth yn cael ei ddathlu a'i annog trwy ddigwyddiadau busnes, podlediadau a gweminarau, a hyrwyddir cyfleoedd i gydweithredu i gefnogi'r gymuned fusnes trwy rwydweithio a chyfathrebu rheolaidd ag aelodau.

Gwelir **arloesedd** yn natblygiad partneriaethau diwydiannol-academaidd newydd, gyda chyfleoedd newydd i gydweithredu yn cael eu harchwilio a'u datblygu. Bydd datblygu sgiliau ar gyfer diwydiant yn cael ei yrru gan amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys rhaglennu cydweithredol ag asiantaethau cymorth busnes; sesiynau blasu DPP am ddim sy'n canolbwyntio ar bynciau busnes allweddol gan gynnwys rheoli prosiectau, arweinyddiaeth a newid; a chyfeirio at raglenni proffesiynol ac academaidd tymor hwy sydd wedi'u haddasu ar gyfer anghenion busnes. Mae rhaglen arloesol o ddarpariaeth Menter wedi'i phlethu ledled ein cwricwlwm, gyda Stiwdio yn darparu cyngor arbenigol, cefnogaeth, mentora a mynediad i bartneriaid.

## 5. Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

*Amlinellwch sut bydd CAYC yn cefnogi gweithgarwch parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig sy'n seiliedig ar le yn faes eang sy'n ymgorffori amrediad helaeth o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau rhwng addysg bellach ac addysg uwch o safbwynt sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd drwy waith ymchwil, ac wynebu heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth ar gyfer y gymuned ar safle prifysgol ar gyfer, er enghraifft, digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]*

Mae gan Brifysgol De Cymru genhadaeth ddiffiniol tuag at ffyniant a lles y cymunedau rydym yn byw yn eu plith ac a wasanaethwn. Datblygodd y Brifysgol o Sefydliad Mecaneg Casnewydd (a sefydlwyd ym 1841) ac Ysgol Mwyngloddiau De Cymru a Sir Fynwy, ac mae wedi dangos ymrwymiad i addysgu pobl leol, gan ddarparu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gyrfaedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Heddiw, mae ei Gweledigaeth 2030 yn rhoi pwyslais ar gynhwysiant, hyrwyddo mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch (AU), a chefnogaeth well ar gyfer myfyrwyr o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Ei nod yw "meithrin perthnasoedd cefnogol, ymddiriedus a phroffesiynol ag arweinwyr dinesig er mwyn sicrhau'r newid a'r canlyniadau cadarnhaol gorau posibl i'n rhanbarth a thu hwnt".

Mae'r Brifysgol yn parhau i ymgysylltu â llunwyr polisi mewn rolau cynghori trwy grwpiau masnachol ac ymchwil allweddol gan gynnwys Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, y Ganolfan Ymchwil Amgylchedd Cynaliadwy a'r Ganolfan Droseddeg. Mae ethos ymchwil y Brifysgol yn canolbwyntio ar ddarparu datrysiadau i broblemau sy'n effeithio ar gymdeithas a'r economi. Gellir gweld enghraifft o hyn yng ngwaith Dr Mike Chick, sydd wedi dyfeisio rhaglenni Saesneg ar gyfer ffoaduriaid sy'n byw yn yr ardal, gan eu galluogi i gymryd rhan weithredol mewn cymdeithas a thirwedd ddiwylliannol De Cymru. Mae'r ymchwilwyr wedi llywio Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Llywodraeth Cymru 2019, sydd wedi canoli darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer polisi'r dyfodol.

Bydd ymrwymiad Ymgysylltu Dinesig PDC yn parhau i gael ei gefnogi gan y Swyddog Cenhadaeth Ddinesig penodedig ac ategir hyn gan ystod o ddigwyddiadau a chyfathrebiadau allanol. Bydd y gweithgarwch hwn yn cyfuno â gweithgarwch cysylltiedig y Gyfnewidfa (gan gynnwys gweithdai AU/AB a gweithgareddau Cymorth Busnes), gan sicrhau un llais allanol clir. Bydd ymrwymadau allweddol mewn perthynas â chyllido Arloesedd a Chymorth Busnes wedi diffinio meysydd Cenhadaeth Ddinesig, er enghraifft, bydd galwad gyntaf y Gronfa Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi yn canolbwyntio ar weithgareddau ymchwil a chydweithio sy'n gysylltiedig â Covid19.

Mae'r Swyddog Cenhadaeth Ddinesig yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Gweithredu Dinesig PDC, a gefnogir gan Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch CCAUC. Nod y prosiect hwn, ar y cyd â Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, yw datblygu carfan o fyfyrwyr dinesig sy'n mynd ati i wirfoddoli a chynnig cymorth i gymunedau De Cymru.

Ym mlwyddyn academaidd 2018-19, cynhaliwyd archwiliad Cenhadaeth Ddinesig o fewn PDC i olrhain sut mae ymchwil, addysgu a gweithgarwch ysgolheigaidd y Brifysgol yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau yn Ne Cymru. Lluniwyd adroddiad sy'n dogfennu gweithgareddau ymgysylltu dinesig presennol y Brifysgol ([https://drive.google.com/file/d/1XcfloKq2v\\_wLFDVK11WBGdGLhHgC4L/view](https://drive.google.com/file/d/1XcfloKq2v_wLFDVK11WBGdGLhHgC4L/view)). Mae hefyd yn amlygu sut mae ein gwaith gydag arweinwyr cymunedol, sefydliadau diwylliannol, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yn ein galluogi i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, hyrwyddo iechyd a lles, a chynrychioli cymunedau De Cymru mewn trafodaethau gwleidyddol a diwylliannol.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn amlinellu cyfres o argymhellion a fydd yn galluogi'r Brifysgol i wella ei hymgysylltiad dinesig (gweler adran 5.1). Hefyd, bydd cefnogaeth gan y gronfa arloesi yn cael ei defnyddio i barhau â gwaith sydd eisoes wedi'i gychwyn, gan gynnwys:

#### Rhwydwaith Cydweithredol Menywod Cymru Mewn STEM

Mewn ymateb i lythyr cylch gwaith CCAUC 2019-20, lle canmolodd Kirsty Williams y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn Adroddiad Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus, bydd PDC yn cynnal Rhwydwaith Cydweithredol Menywod Cymru Mewn STEM (<https://www.menywodcymrumewnstem.org/>). Mae'r fenter wedi cael anogaeth gan Lywodraeth Cymru, ac arweinwyr mewn diwydiant ac addysgwyr STEM, ac mae'r cydgysylltwyr wedi chwarae rhan weithredol ar fwrdd Menywod Mewn STEM Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r is-grwpiau diwydiant a chyfathrebu. Agorwyd symposiwm agoriadol Menywod Cymru Mewn STEM gan Jane Hutt AC. Gan weithio ochr yn ochr â Dr Angela Watkins (Uwch Swyddog Gwyddoniaeth, Llywodraeth Cymru) cawsom ein hysbysu am ganfyddiadau cychwynnol y 'Prosiect Tystiolaeth Sylfaenol ac Ymchwil ar gyfer Cydraddoldeb Rhywiol mewn STEM' a gyflawnir ar hyn o bryd gan Ymchwil Arad. Nod y gwaith hwn yw blaenoriaethu adnoddau a chamau gweithredu ar gyfer bwrdd ac is-grwpiau Menywod Cymru Mewn STEM. Un o ganfyddiadau mwyaf arwyddocaol y prosiect yw bod strategaethau ymyrraeth i gynyddu nifer y menywod a merched sy'n cymryd rhan mewn STEM wedi bod yn llwyddiannus.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad hwn, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu o weithgarwch yn y dyfodol a fydd yn parhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn STEM. Bydd cymorth gan CCAUC yn ein galluogi i weithredu'r cynllun gweithredu hwn, sydd wedi cael adborth a chymeradwyaeth gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt. Mae WWIST yn cynnig y gweithgaredd canlynol:

- Adolygu a gwella ein cynllun cyfathrebu a'n gwefan;
- Gweithio gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a bwrdd Cydraddoldeb mewn STEM Llywodraeth Cymru i nodi ble mae angen

ymyriadau;

- Nodi cyfleoedd hyfforddi a gwneud y rhain yn weladwy drwy ein sianeli cyfathrebu;
- Galw am fonitro ymyriadau, ac annog cyflogwyr i gael Achrediad cydraddoldeb rhywiol mewn STEM;
- Parhau i gynnal digwyddiadau sy'n hyrwyddo gwaith menywod mewn diwydiant STEM, addysg ac ymchwil.

Bydd WWIST yn datblygu cyfres podlediad o'r enw 'STEM Stories: Conversations about Careers in Science'. Bydd pob podlediad yn cynnwys unigolion ar wahanol gamau o'u gyrfaedd mewn deialog â'i gilydd. Byddant yn trafod eu cyflawniadau hyd yma ac unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â'r rhywiau y maent wedi'u hwynebu. Bydd pum podlediad, gan ganolbwyntio ar: STEM a'r Llywodraeth; Gwyddoniaeth Fforensig; Ymchwil ac Addysg Uwch; yr Amgylchedd; Diwylliant a Chadwraeth. Yn ogystal â hyn, byddwn yn parhau i wella gwefan a rhwydwaith WWiST, gan sicrhau bod y cynnwys yn addas i'r diben ac yn ymateb i anghenion y gymuned STEM.

#### Cronfa Gweithgarwch Dinesig

Bydd Cronfa Gweithgarwch Dinesig yn cael ei datblygu fel cydweithrediad rhwng PDC a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Bydd grantiau o £1,000 ar gael i hwyluso gweithgarwch ymchwil ac ymgysylltu a fyddai o fudd uniongyrchol i'r gymuned. Bydd y gronfa'n hyrwyddo gweithgarwch yn y meysydd canlynol:

- Democratiaeth ddiwylliannol a chynhwysiant;
- Gwerth y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol;
- Creadigrwydd a Pherfformiad;
- Rhyngddisgyblaethol a chydweithredu;
- Dysgu gydol oes ac addysg.

Byddwn yn cynnal digwyddiad cyhoeddus lle mae ymchwilwyr ym mhob sefydliad yn amlinellu effaith eu gwaith ar les cymunedol.

#### Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Fel rhan o Grŵp PDC, bydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i fywyd diwylliannol Cymru, gan hyrwyddo tua 350 o berfformiadau cyhoeddus bob flwyddyn gan fyfyrwyr ac artistiaid blaenllaw, a chefnogi digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yn y Coleg gan rai o'i sefydliadau partner cymunedol allweddol. Un o brif amcanion y rhaglen o berfformiadau cyhoeddus fydd dod â rhagor o amrywiaeth i'r cynnwys ac ymgysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd. Hefyd, bydd y Coleg ymestyn ei raglen deithiol yng Nghymru, ac yn datblygu rhaglen gyhoeddus ddigidol, gan ategu'r perfformiadau cyhoeddus byw ac ymestyn cyrhaeddiad a mynediad. Bydd y Coleg yn parhau i ddarparu rhaglen fywiog o gyfranogiad cymunedol ar gyfer pobl o bob oed, trwy gydol y flwyddyn â thrwy rhaglen amrywiol o Ysgolion Haf. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar weithio'n fwyfwy agos gyda rhwydwaith partneriaeth gymunedol, ac yn defnyddio hyn i ddatblygu llwybrau dilyniant clir o weithgarwch cychwynnol y prosiect i ymgysylltu mwy cyson dros amser.

**5.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Roedd ein harchwiliad a'n hadroddiad blaenorol ar genhadaeth ddinesig yn cynnwys argymhellion ynghylch sut y gall PDC gynyddu ei heffaith gymdeithasol ar y gymuned. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu trwy fuddsoddiad gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru a byddant yn cynnwys gwella ymgysylltiad dinesig:

- Trwy gyfathrebu. Byddwn yn gwneud ein hymgysylltiad dinesig yn weledig yn fewnol ac yn allanol. Hefyd, byddwn yn mynegi ymrwymiad strategol i ymgysylltu â'r gymuned a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* (2015).
- Trwy ymgysylltu â'r cyhoedd: Byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau, gweithdai a darlithoedd cyhoeddus fel 'canolbwynt' ar gyfer ymgysylltu dinesig. Byddwn yn cynnal digwyddiadau bob mis, gyda rhaglen chwarterol wedi'i threfnu ymlaen llaw.
- Trwy addysgeg feirniadol: Byddwn yn cefnogi disgyblaethau academaidd sy'n cwestiynu normau ac ymddygiadau sefydliadol.
- Trwy gyllido: Byddwn yn darparu cronfa hyblyg i staff PDC gefnogi gweithgareddau ymgysylltu dinesig. Bydd y flwyddyn gychwynnol yn gweithredu fel treial cyn nodi meini prawf ffurfiol yn y blynyddoedd canlynol.
- Trwy gytundeb â sefydliadau angori, a fydd yn amlinellu ble mae'r problemau hirdymor a thymor byr.
- Trwy ddefnydd cyhoeddus o'n cyfleusterau: Byddwn yn annog grwpiau cymunedol a phartneriaid allanol (yn enwedig elusennau a grwpiau gwirfoddol) i ddefnyddio ein safleoedd ar gyfer cyfarfodydd cymunedol, arddangosfeydd, grwpiau celf a chodi arian.
- Trwy gydraddoldeb ac amrywiaeth: Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r agenda hon â mentrau, megis Menywod Cymru Mewn STEM: Menter Gydweithredol, a Chynllun Mentora Menywod mewn Prifysgolion. Cyn y brigiad Covid, roedd menter Menywod Cymru Mewn STEM yn cynnal digwyddiad blynyddol ar gyfer Cymru gyfan a nifer o ddigwyddiadau llai trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, mae pob digwyddiad wedi bod ar raddfa lai ac fe'u cynhelir ar-lein.
- Datgelodd yr archwiliad hefyd yr angen i gydnabod a gwobrwyo academyddion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dinesig drwy eu hannog i gyhoeddi eu gwaith. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at yr angen i rannu arfer gorau ac arddangos y gwaith y mae SAU Cymru yn ei wneud mewn perthynas â chenhadaeth ddinesig. Byddwn yn defnyddio sianeli cyfathrebu PDC i dynnu sylw at lwyddiannau ymgysylltu dinesig.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n cymryd rhan yn Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru sydd newydd ei sefydlu i nodi cyfleoedd dinesig.
- Byddwn hefyd yn parhau â'n Cymuned Ymarfer sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu dinesig fel cyfrwng i rannu arfer gorau a gwneud cysylltiadau newydd tra'n cryfhau'r berthynas bresennol â sefydliadau dinesig.
- Bydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn arallgyfeirio cynnwys perfformiad i ymgysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd a datblygu rhaglen gyhoeddus ddigidol i ymestyn cyrhaeddiad a mynediad.
- Byddwn yn gweithio gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i sefydlu ein Cynllun Gweithredu Dinesig, gan gefnogi ein myfyrwyr i ymgysylltu â

sefydliadau y mae'r pandemig yn effeithio arnynt.

- Bydd CBCDC yn darparu rhaglen cyfranogiad cymunedol fywiog ar gyfer pob oedran, gan ganolbwyntio ar weithio'n fwyfwy agos gyda rhwydweithiau partneriaeth cymunedol.

**5.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag [Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru](#) gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

- Rhagoriaeth
- X Lle
- X Arloesi
- X Cydweithredu

**5.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?**

Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae Prifysgol De Cymru yn parhau i ddatblygu ei hagenda Ymgysylltu Dinesig trwy ymrwmo i'r argymhellion a amlinellir yn archwiliad Cenhadaeth Ddinesig CCAUC. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar eu lle ac wedi dechrau gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod ein gweithgareddau dinesig yn cyd-fynd â sefydliadau eraill er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'r cymunedau y mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu gwasanaethu.

Mae cydweithredu yn ganolog i weithgareddau arfaethedig PDC y manylir arnynt yn adran 5, er enghraifft, mae Menywod Cymru Mewn STEM: Menter Gydweithredol PDC yn datblygu cysylltiadau rhwng AU, AB a diwydiant i sicrhau y gall piblinell o fenywod medrus gymryd rhan mewn STEM.

Mae ein Cynllun Ymgysylltu newydd (sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd) yn adeiladu ar y sylfeini a gyflawnwyd drwy gyflawni'r targedau yn ein cynllun presennol ond mae wedi ehangu i ystyried sut y gall ein myfyrwyr chwarae rhan mewn cenhadaeth ddinesig. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflymu gan ein cynghrair strategol gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yr ydym yn gweithio gyda hi i dreialu'r Cynllun Gweithredu Dinesig, gan alluogi myfyrwyr i ymgymryd â chyfleoedd gwirfoddoli gyda sefydliadau i ddechrau, sydd wedi cael eu heffeithio'n wael gan y pandemig. Nod y Cynllun yw cefnogi 200 o fyfyrwyr i swyddi gwirfoddoli.

**Adran C: Alinio â pholisi a blaenoriaethau**  
**6. Polisi Cymru a'r DU**



*Disgrifiwch sut mae eich strategaeth CAYC yn alinio â pholisïau rhanbarthol, Cymru a'r DU sy'n seiliedig ar le, fel, er enghraifft, bargeinion twf dinas-ranbarth lleol / rhanbarthol; [Ffyniant i Bawb gan Lywodraeth Cymru: y cynllun gweithredu ar yr economi](#); [Strategaeth Ddiwydiannol y DU](#); [Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus](#); [Sefydliad Prifysgolion Dinesig UPP](#); [Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid](#); Gwyddoniaeth i Gymru; Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ac ati.*  
[Uchafswm o 500 o eiriau]

Mae ein Strategaeth Arloesi yn alinio â **Ffyniant i Bawb gan Lywodraeth Cymru: y cynllun gweithredu ar yr economi** a'r **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol** trwy gefnogi cydweithredu rhwng y brifysgol a busnesau a chyfnewid gwybodaeth er mwyn ysgogi twf, cynyddu cynhyrchiant, a gwneud Cymru yn fwy cystadleuol yn fyd-eang. Mae'n cefnogi ffocws Llywodraeth Cymru ar arloesi, gan annog busnesau i addasu a gwella eu cynhyrchiant a'u cynaliadwyedd trwy ddatrysiadau arloesol. Bydd ein hymyriadau cyfnewid gwybodaeth yn darparu cyfleoedd i fusnesau wireddu eu syniadau datblygu mewn amgylchedd cefnogol ac i fod yn hyderus wrth gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd i'r farchnad, gan gael effaith gadarnhaol ar gynnyrch domestig gros a sbarduno twf mewn swyddi.

Mae'r strategaeth yn alinio â phileri allweddol **Ymchwil, Arloesi a Thwf Busnes** sy'n rhan o **Strategaeth Ddiwydiannol y DU**, gyda chynhyrchiant yn cael ei yrru gan gyfnewid syniadau a chydweithio rhwng AU a diwydiant. Mae masnacheiddio llwyddiannus yn gofyn am gysylltiadau academiaidd-diwidiannol agos â mecanweithiau clir ar gyfer partneru, ac mae hyn yn gyrru ein dull o gefnogi twf busnes, wedi'i hwyluso gan ein Cyfnewidfa. Mae pileri **Sgiliau a thwf cenedlaethol/rhanbarthol** y Strategaeth Ddiwydiannol yn allweddol hefyd, ac mae ein cydweithrediad AU/AB yn rhoi cyfle i siarad â diwydiant ag un llais, ac i arwain ar fentrau sy'n cefnogi dull strategol a chydweithredol o fuddsoddi mewn sgiliau a darpariaeth sgiliau. Mae ein gwaith agos â chonsortia diwydiannol yn hanfodol i'n darpariaeth sgiliau, a gaiff ei yrru gan ymgysylltiad â diwydiant a datblygu partneriaethau.

Bydd y gronfa Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi yn cefnogi argymhellion **Gwyddoniaeth i Gymru** ac argymhellion Reid trwy drosoli cyllid allanol o ffynonellau o fri y tu allan i Gymru, yn seiliedig ar ragoriaeth ymchwil. Mae gan PDC arbenigedd yn yr Heriau Mawr a nodwyd o fewn **Gwyddoniaeth i Gymru**, yn enwedig yr her carbon isel, ynni a'r amgylchedd. Mae ein *Canolfan Ymchwil Amgylchedd Cynaliadwy* yn ganolfan ymchwil arloesol sy'n dod ag arweinwyr o feysydd bioleg, peirianeg, cemeg a ffiseg ynghyd mewn un tîm academiaidd, gan gyfuno eu hadnoddau a'u sgiliau er mwyn mynd i'r afael â heriau mawr mewn ymchwil a datblygu ym meysydd ynni a'r amgylchedd a denu cyllid o ffynonellau yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae ein *Canolfan Peirianeg Systemau Modurol a Phŵer* yn ganolfan ymchwil, datblygu, profi ac ardystio annibynnol a gydnabyddir yn genedlaethol, ac mae ganddi enw da am ymchwil arloesol a gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth yn y sectorau peirianeg systemau modurol a phŵer uwch. Bydd y ddwy ganolfan yn allweddol i gyflawni ein strategaeth.

Mae ein gwaith Ymgysylltu Dinesig yn alinio â **Sefydliad Prifysgol Ddinesig y Rhaglen Partneriaeth Prifysgol** trwy ein Cynllun Ymgysylltu Creu Cysylltiadau diwygiedig, a fydd yn arwain ar y syniad o “fyddin ddinesig”, gan sicrhau bod holl gymuned PDC yn rhan o’n cenhadaeth ddinesig, gan gynnwys yn hanfodol ein poblogaeth o fyfyrwyr. Mae ein gwaith ymgysylltu dinesig hefyd yn mynd i’r afael yn uniongyrchol ag argymhellion o adroddiad “Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus” Llywodraeth Cymru.

Ym maes menter ac entrepreneuriaeth, mae ein strategaeth yn cadarnhau ein hymrwymiad i adeiladu ar y gwaith rhagorol sy’n cael ei gyflawni trwy’r **Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid**, sydd wedi’i halinio â rhaglen waith **Ffyniant i Bawb** Llywodraeth Cymru, sy’n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015), a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar yr Economi, Cyflogadwyedd a Sgiliau. Mae’n ymrwmo i yrru datblygiad sgiliau menter ac entrepreneuriaeth trwy chwarae rhan glir a sylweddol sy’n ganolog i dwf ac adferiad economaidd Cymru, y DU a’r byd.

## 7. Bodloni gofynion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU

*Rhaid i sefydliadau yng Nghymru ddangos ymrwymiad ac aliniad ag egwyddorion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU drwy eu strategaethau CAYC. Bydd cam datblygu’n cael ei gynnal yn ystod 2020-21 er mwyn gweithredu model ar gyfer Cymru.*

*Ar gyfer y cam cychwynnol hwn, rydym yn gofyn i sefydliadau gadarnhau eu bod yn ymwybodol, drwy eu strategaethau, o egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a amlinellwyd fel rhan o’r [ymgyngghoriad](#) cychwynnol, a’u bod yn ymrwymedig i alinio â’r egwyddorion drwy fodel Cymru ar gyfer ymgysylltu. Gellir cyflwyno strategaethau CAYC diwygiedig yn flynyddol fel rhan o’r weithdrefn fonitro, a chaiff y broses hon ei defnyddio i ddangos ymrwymiad llwyr i’r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn dilyn y flwyddyn ddatblygu.*

[Uchafswm o 500 o eiriau]

Rydym wedi ymrwmo i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth, gan gydnabod pwysigrwydd alinio ein Strategaeth Arloesi a’r wyth egwyddor. Byddwn yn monitro ein strategaeth yn erbyn yr egwyddorion ac wedi ymgynghori ar draws y sefydliad i gynnal ymarfer hunanarfarnu a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar frys.

**Cenhadaeth:** Mae arloesi yn thema allweddol yn strategaeth PDC 2030, gydag amcanion sefydliadol clir ar gyfer Arloesi, dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor Arloesedd. Mae grwpiau rheoli pwrpasol yn bodoli ar gyfer meysydd Ymgysylltu a Menter/Entrepreneuriaeth ac mae’r rhain yn canolbwyntio ar yrru’r ddau agenda ymlaen a chydweithio i sicrhau llwyddiant a rhannu arferion gorau.

**Polisiâu/Prosesau:** Mae prosesau clir ar waith ar draws yr agenda Arloesi – gan gynnwys mewn perthynas â masnacheiddio, datblygiad proffesiynol parhaus,

partneriaeth/ymgysylltiad allanol, sicrhau ansawdd a dogfennaeth gyfreithiol. Mae gwelliant parhaus mewn dogfennaeth prosesau a pholisi yn parhau er mwyn sicrhau eglurder i'r holl randdeiliaid (mewnol ac allanol) ar weithredu gweithgareddau Arloesi.

**Ymgysylltu:** Mae gan ein gweithgarwch Ymgysylltu lwybr clir o fewn Cyfnewidfa PDC, gan ddarparu gwasanaeth canolog ar gyfer brysbennu ymholiadau a hwyluso mynediad i arbenigedd academiaidd. Mae'r gronfa Arloesi yn ein galluogi i barhau â'n hymrwymiad i ddarparu adnoddau cymorth busnes sylweddol a gweithgareddau ymgysylltu â'r diwydiant trwy dîm y Gyfnewidfa – gan ddarparu prosesau clir ar gyfer rheoli partneriaethau a dathlu llwyddiannau cydweithredol.

**Gweithio'n dryloyw ac yn foesebol:** Rydym wedi ymrwymo i weithio'n dryloyw ac yn foesebol, gyda mecanweithiau clir ar gyfer cyfleu gofynion cyfreithiol/rheoliadol i bartneriaid a rhanddeiliaid. Rydym yn sicrhau'r lefel uchaf o broffesiynoldeb wrth i ni reoli partneriaethau trwy systemau ac adnoddau canolog a chefnogol, gan nodi bod gwelliant parhaus yn allweddol.

**Adeiladu capasiti:** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu staff a myfyrwyr i gyflawni gweithgarwch Cyfnewid Gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae gennym galendr cynhwysfawr o ddigwyddiadau sydd ar gael i'r holl staff, a chyfleoedd datblygu sy'n cynnwys ymchwil, arloesi, ymgysylltu ac ymgysylltu dinesig a chyhoeddus. Mae'n orfodol i'r holl staff fynychu sesiwn sefydlu ganolog lle mae'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt ymgysylltu â gweithgarwch Arloesi/Cyfnewid Gwybodaeth yn cael ei hamlinellu. Mae rhwydweithiau da ar gael i'n staff Cyfnewid Gwybodaeth trwy SAUau Cymru, fforwm Cynghrair y Prifysgolion a fforwm Cyfnewid Gwybodaeth PraxisAuril a DPP, ac anogir secondiadau staff mewn diwydiant.

**Cydnabyddiaeth a gwobrau:** Rydym yn cydnabod cyflawniad staff a myfyrwyr sy'n cael effaith yn eu gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth, ac rydym yn dathlu'r llwyddiant hwn yn fewnol ac yn allanol. Mae ein gwobrau Effaith PDC – ar gyfer academyddion a phartneriaid allanol – yn dathlu llwyddiant ein hymchwil a'n harloesedd a'r effaith y mae'r gweithgareddau hyn yn ei chael yn y byd go iawn. Mae'r gwobrau yn amlygu gwerth y gweithgareddau hyn i staff sydd yng nghanu cynnar eu gyrfaoedd ac yn eu helpu i ystyried ymgysylltu'n allanol er mwyn sicrhau newid trawsnewidiol. Mae'r holl staff academiaidd yn gallu sicrhau dilyniant gyrfa i fod yn Athro Cyswllt ac yn Athro trwy un o bedwar llwybr gan gynnwys Arloesi ac Ymgysylltu ac Ymarfer Proffesiynol, gan ategu llwybrau mwy sefydledig Ymchwil a Datblygu a Dysgu ac Addysgu.

**Gwelliant parhaus:** Rydym yn rhannu arferion gorau yn fewnol, a thrwy rwydweithiau allanol megis consortia diwydiant, y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol, rhwydweithiau AU/AB, Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU, Prifysgolion Cymru/CCAUC/Cynghrair y Prifysgolion, a chyrrff Diwydiant. Mae adborth gan bartneriaid yn allweddol i'n gweithgarwch masnacheiddio a'n gwasanaethau cymorth busnes.

**Gwerthuso llwyddiant:** Rydym yn meincodi perfformiad Cyfnewid Gwybodaeth yn flynyddol trwy ddata Rhyngweithio Addysg Uwch a Busnes a'r Gymuned, ac yn

adrodd yn erbyn ein Cynlluniau Sefydliadol ar gyfer Ymgysylltu, Ymchwil ac Arloesi, a'n dangosyddion perfformiad allweddol ehangach yn Strategaeth 2030.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

*Rhowch wybodaeth benodol am sut bydd y strategaeth CAYC yn cefnogi'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio a geir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#). [Uchafswm o 250 o eiriau]*

Fel corff cyhoeddus, mae PDC yn cydnabod y ddyletswydd a osodir arni gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac i ystyried anghenion pobl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae ein strategaeth Arloesi yn alinio â'r nodau Ffyniant, Cydnerthedd, Cyfrifoldeb Byd-eang a Chydraddoldeb – yn benodol trwy ddarpariaeth ein cronfa Arloesi a Chyfnawid Gwybodaeth, y Gyfnawidfa/Cymorth Busnes a gweithgareddau Cydweithredol, a'n ffocws ar Entrepreneuriaeth. Trwy gymuned academiaidd arloesol, gynhyrchiol byddwn yn datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig a byddwn yn canolbwyntio ar gyfnawid gwybodaeth sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd. Byddwn yn gweithio â chwmnïau yn sectorau allweddol Llywodraeth Cymru a'r rhai sydd â'r angen mwyaf (gan gynnwys entrepreneuriaid a microfusnesau) i gefnogi twf mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy. Byddwn yn darparu cymorth er mwyn galluogi cwmnïau a'u gweithwyr i wireddu eu potensial llawn, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, ac er mwyn gwella enw da'r Brifysgol, cynhyrchu incwm a chael effaith gadarnhaol ar Gymru.

Bydd ein cenhadaeth ddinesig a'n gwaith Menywod Mewn STEM yn cefnogi'n uniongyrchol Cymru Sy'n Fwy Cyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynus, a bydd ein Cylchgrawn Ymgysylltu Dinesig yn ychwanegu at ein Diwylliant Bywiog. Trwy'r gronfa Arloesi a Chyfnawid Gwybodaeth, rydym yn rhoi cefnogaeth weithredol i brosiectau sy'n ymateb i oblygiadau iechyd mewn ymateb i COVID19 er mwyn cyflawni Cymru lachach. Bydd yr holl weithgarwch Arloesi yn cael ei oruchwylio i sicrhau ei fod yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 9. Effaith ar y Gymraeg

*Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y caiff buddsoddiad CAYC ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol, efallai y byddwch am gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu [Cymraeg 2050](#). [Uchafswm o 250 o eiriau]*

Bydd yr holl weithgarwch yn cael ei oruchwylio er mwyn sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, a'i fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ein holl weithgarwch Arloesi – ar draws ffrydiau gwaith menter, datblygu

economaidd a thwf busnes, cenhadaeth ddinesig a masnacheiddio – byddwn yn ystyried ein cyfraniad i dair thema cynllun gweithredu Cymraeg 2050:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth mewn perthynas â darparu sgiliau, defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg, a'r effaith ar gymunedau Cymraeg.

Mae ein strategaeth yn cynnwys ystod eang o weithgareddau a fydd yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion rheoliadol. Lle bo angen, byddwn yn gofyn am fewnbwn gan Uned y Gymraeg PDC sy'n gyfrifol am weithredu Safonau'r Gymraeg a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac am fonitro cydymffurfriad â'r safonau. Mae'r uned yn gweithio'n agos â Chanolfan Cymraeg i Oedolion PDC sy'n darparu cyrsiau Cymraeg i staff, o ddechreuwyd i lefel uwch.

#### **Adran D: sicrwydd ariannol**

#### **10. Defnyddio cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru**

*Sut mae eich dyraniad CAYC ar gyfer 2020/21 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a amlinellwyd yn Adran B, a beth yw'r blaenoriaethau a ragwelir gennych ar gyfer defnyddio cyllid CAYC dros y blynyddoedd nesaf? [Uchafswm o 250 o eiriau – neu rhwch dabl sy'n amlinellu meysydd buddsoddi bras ynghlwm wrth y ddogfen hon]*

Dangosir gwariant dangosol a ragwelir isod (diwygiwyd ar gyfer 21/22). Er eglurder, dyrannwyd gwariant yn erbyn un o'r tri maes blaenoriaeth RWIF, ond dylid nodi y bydd llawer o'r cyllid yn cael effaith ar draws y tri maes blaenoriaeth.

#### **Dyraniad Cyllid 2021/22**

#### **Masnacheiddio: £745,000**

- Cronfa Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi
- Cronfa Masnacheiddio
- Swyddog Prosiect Masnacheiddio
- Swyddog Contractau Arloesi
- Datblygiad DPP
- Datblygu Cyfleusterau Technegol

#### **Twf Busnes a Chymorth Sgiliau: £444,192**

- Rheolwr Ymgysylltu x 2
- Swyddog Cyfnewid
- Rhaglen Partneriaeth ac Ymgysylltu
- Gweithdai AU/AB
- Sesiynau blasu DPP ar gyfer busnes
- Datblygu Busnes DPP
- Cyfnewid digwyddiadau a marchnata
- Cymorth CRM
- Adnodd Deor
- Swyddog Cyflogadwyedd Menter
- Adnodd Entrepreneur Graddedig cyn-fyfyrywyr

**Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd: £70,000**

- Swyddog Cenhadaeth Ddinesig
- Digwyddiadau Cenhadaeth Ddinesig
- Gwobrau Effaith

**Adran E:**

**Gofynion rheoliadol**

*Noder: Gallai CCAUC ofyn am wybodaeth / eglurhad pellach ar unrhyw un o'r meysydd hyn*

i) <a href="#">Safonau'r Gymraeg (2018)</a> <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018
ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Mae'r strategaeth hon wedi cael ei sgrinio o safbwynt yr effaith ar gydraddoldeb
iii) <a href="#">Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)</a> <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
<b>Llofnod: Is-Ganghellor</b>	<i>JE Lydon</i>
<b>Dyddiad</b>	25/06/2020